



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Adroddiad ar weithgareddau 2016-17



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Bryn Menai
Ffordd Caergybi
Bangor
Gwynedd
LL57 2JA

01248 371839

swyddfa@cyfieithwyr.cymru

www.cyfieithwyr.cymru



@cyfieithwyr

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

Cyflwyniad

Prif nod y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn oedd parhau i gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.

Gwnaed hyn mewn sawl dull a modd, gan gynnwys:

- cynyddu nifer y cyfieithwyr yr ydym yn eu cynrychioli;
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr trwy drefnu rhaglen amrywiol o weithdai, ac annog a hyrwyddo datblygu proffesiynol parhaus;
- cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, yn enwedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
- cynnal a meithrin ein cysylltiadau â chyrrff a sefydliadau eraill y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu;
- hyrwyddo a marchnata'r Gymdeithas a'i haelodau.

Rhydd yr adroddiad hwn drosolwg o weithgareddau 2016-17 a gwybodaeth am drefniadau llywodraethu ac ariannu'r Gymdeithas.

Cafodd y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17.



Rhagair

Ar 15 Hydref 2016 roedd hi'n 40 mlynedd ers sefydlu'r Gymdeithas ac mae'n destun dathlu ein bod ni, yng ngeiriau'r gân, yma o hyd. Mae llu o aelodau a staff gweithgar ar hyd y blynyddoedd hynny wedi sicrhau parhad a llwyddiant y Gymdeithas. Iddynt hwy mae'r diolch ein bod ni heddiw, fel y dywedwn ar ein gwefan, wrthi'n sicrhau safonau cyfieithu proffesiynol trwy ddatblygu a chryfhau rhagor ar y proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg.

Ac mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg/Saesneg. Mae ein haelodau'n gweithio mewn swyddi yn y sector cyhoeddus ac yn y sector preifat, ac ar eu liwt eu hunain. At hynny, rydym hefyd yn ymwneud ag unigolion sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y proffesiwn.

Mae'n galonddid gweld sylw i'r proffesiwn cyfieithu yn Strategaeth Llywodraeth Cymru "Cymraeg 2050". Ceir ynddi gydnabyddiaeth i'r 'datblygiad sylweddol yn y proffesiwn dros y blynyddoedd diwethaf', a nodir awydd y Llywodraeth i weld 'parhau i sicrhau cyflenwad parod o gyfieithwyr proffesiynol ac ieithyddion graddedig â sgiliau modern, a gefnogir gan drefn achredu a rheoleiddio gadarn sy'n seiliedig ar safonau ac ymddygiad proffesiynol'. Mae'r Gymdeithas yn barod ac yn eiddgar i barhau i fod ar flaen y gad yn natblygiad y proffesiwn yn ystod y blynyddoedd nesaf ac i gydweithio â Llywodraeth Cymru ac eraill wrth wireddu'r awydd hwn. Mae i gyfieithu le pwysig yn y nod uchelgeisiol a osodir yn "Cymraeg 2050".

Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i Lywodraeth Cymru am ddyfarnu grant i'r Gymdeithas yn 2016-17, a rhoi sicrwydd iddi ar ôl cyfnod pryderus iawn i'r Cyfarwyddwyr ac i'r aelodau, ac yn arbennig i'r staff, ynghylch ei sefyllfa ariannol, wrth i'r grant blaenorol gan Gomisiynydd yr Iaith ddod i ben ym mis Mawrth 2016.

Mae gwefan newydd y Gymdeithas yn hynod lwyddiannus. Mae'n cynnig adnodd gwerthfawr i'r aelodau o ran marchnata ac o ran adnoddau, a chyrchfan hwylus i ddarpar gwsmeriaid sy'n chwilio am wybodaeth ac am wasanaeth cyfieithu o safon.

Mae'n bleser gen i gyflwyno'r adroddiad ar weithgareddau'r Gymdeithas yn 2016-17 i'ch sylw. Wrth wneud hynny hoffwn ddiolch yn fawr i bob un a fu'n rhan o'r gwaith pwysig a wnaed gan y Gymdeithas ac a ddisgrifir isod.

*Cadeirydd,
Claire Richards*



2007-2017

Wrth fwrw golwg dros y 40 mlynedd ers sefydlu'r Gymdeithas yn Narlith Goffa Hedley Gibbard 2016, sef darlith flynyddol y Gymdeithas, cyfeiriodd Berwyn Prys Jones at sawl carreg filltir bwysig yn hanes y Gymdeithas, yn eu plith: sefydlu trefn arholi'r Gymdeithas yn y 1990au, cael grant gan Fwrdd yr Iaith, sefydlu swyddfa a phenodi staff, trefnu cynadleddau a gweithdai, llunio cyfeirlyfr o'r aelodau, cael gwefan am y tro cyntaf, a symud o fod yn gymdeithas wirfoddol i'w chofrestru'n gwmni.

Roedd seiliau cadarn yn eu lle pan benodwyd y Prif Weithredwr presennol ddeng mlynedd yn ôl. Pa ddatblygiadau arwyddocaol, felly, a welwyd ers 2007 ac a fydd yn rhoi'r cadernid a'r hyder i'r Gymdeithas barhau i wireddu ei nod a'i hamcanion ac i ddatblygu'i hun ymhellach fel llais i gyfieithwyr proffesiynol?

- Adolygu ac ailwampio'r drefn arholi a phenodi Prif Arholwr a 2 ddirprwy ar gyfer yr Arholiadau Aelodaeth Testun ac 1 dirprwy ar gyfer y Prawf CAP yn 2012.
- Creu a phenodi i swydd Rheolwr Datblygiad Proffesiynol (yn 2009) i ddisodli'r Swyddog Datblygu, datblygiad a arweiniodd at gynnal rhaglen amrywiol a llwyddiannus o weithdai, gan gynnwys cynyddu nifer ac amllder ein gweithdai wyneb yn wyneb, datblygu'r e-weithdy cyfieithu, yr Ymarfer CAP, hyfforddiant penodol i sefydliadau; ac at greu cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus yn 2014.
- Llunio a chyflwyno Cod Ymddygiad Proffesiynol yn 2011, cod y mae disgwyl i holl aelodau'r Gymdeithas ymddwyn yn unol ag ef. Law yn llaw, sefydlu'r drefn gwyno gysylltiedig, a gwasanaeth asesu ansawdd cyfieithiad.
- Sefydlu Meysydd Arbenigedd Proffesiynol ar gyfer ein haelodau Cyflawn a'n haelodau CAP yn 2015. Y meysydd cyntaf i'w cydnabod oedd CAP yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, cyfieithu deddfwriaethol, cyfieithu cyfathrebu. Caiff CAP yn yr Undeb Ewropeaidd hefyd ei gydnabod.
- Sefydlu Aelodaeth Gorfforaethol yn 2011 ar gyfer cwmnïau cyfieithu preifat. Newidiwyd yr enw i Gwmni Cydnabyddedig yn 2015. Ar sail hynny, sefydlwyd dull o gydnabod sefydliadau cyhoeddus a dielw hefyd.
- Sefydlu categori'r Myfyriwr Cyswllt yn 2015.
- Sefydlu Diwrnod i'r Aelodau yn 2014.
- Sefydlu Gwobr Goffa Wil Petherbridge yn 2007.



- Ar yr ochr academiaidd: annog a chefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (ers 2011) wrth iddo sefydlu'r cwrs Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol; llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2014; annog a chefnogi Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i sefydlu Tystysgrif ôl-raddedig CAP yn 2012; a buddsoddi mewn ymchwil academiaidd.
- Dyfnhau'r berthynas â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi gan arwain at gryfhau'r drefn CAP yn y llysoedd a statws proffesiynol cyfieithwyr ar y pryd. CAP yn y Llysoedd yw'r Maes Arbenigedd Proffesiynol cyntaf i'r Gymdeithas ei gydnabod.
- Parhau i feithrin a datblygu'r berthynas â chymdeithasau a chyrff cyfieithu eraill ym Mhrydain a'r tu hwnt.
- Ar y cyd â'r Urdd, a gyda chydweithrediad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn 2015, creu a chynnal cystadleuaeth cyfieithu i'r oedran 19-25 yn Eisteddfod yr Urdd.
- Un o bartneriaid yr Her Gyfieithu i'r Gymraeg, ar y cyd â Wales PEN Cymru a Chyfnawidfa Lên Cymru ers 2011.

Dathlu'r 40

Roedd 2016 yn flwyddyn nodedig i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Roedd yn flwyddyn dathlu ein sefydlu 40 mlynedd yn ôl.

Ar 15 Hydref 1976 cyfarfu tri ar ddeg o gyfieithwyr yn Aberystwyth a phenderfynu bod angen sefydlu cymdeithas broffesiynol. Bryd hynny doedd ond rhyw ugain o bobol yn gweithio fel cyfieithwyr proffesiynol amser-llawn. Eu bwriad oedd sefydlu cymdeithas i'r criw bychan o gyfieithwyr a oedd yn gweithio mewn sefydliadau cyhoeddus i drafod materion perthnasol, i geisio cysoni eu harferion cyfieithu a chytuno ar dermau ac ati rhag drysu neb. Etholwyd Moc Rogers yn Gadeirydd a Mary Jones yn Ysgrifennydd cyntaf'r Gymdeithas. Roedd y ddau ar y pryd yn gyfieithwyr yn y Swyddfa Gymreig.

Roedd yn addas iawn, felly, i ni ofyn i Berwyn Prys Jones, Cadeirydd y Gymdeithas am y rhan helaethaf o'r deugain mlynedd cyntaf, a ffigwr amlwg a dylanwadol yn natblygiad y Gymdeithas a'r diwydiant/proffesiwn cyfieithu yng Nghymru, i olrhain a chyflwyno'r hanes yn narlith flynyddol y Gymdeithas, **Darlith Goffa Hedley Gibbard**, a gynhaliwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau fel rhan o weithgareddau 'dydd lau cyfieithu'. 'Troi a throsi: dathlu 40 mlynedd' oedd teitl y ddarlith a gellir ei darllen ar wefan y Gymdeithas.

Ddydd Gwener, 21 Hydref 2016, cynhaliwyd cinio dathlu yn Yr Hen Lyfrgell, Caerdydd. Cafwyd cerddi cyfarch gan ddau o'n haelodau sy'n brifeirdd, Rhys Iorwerth a Glenys Roberts. Mae'r rhain hefyd i'w gweld ar wefan y Gymdeithas.



Aelodaeth y Gymdeithas

Aelodau unigol

Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan y Gymdeithas 359 o aelodau, sef dau yn fwy nag oedd gennym ar 31 Mawrth 2016, fel a ganlyn:

Aelodau Cyflawn - 197

Aelodau Sylfaenol - 144

Aelodau Cyfieithu ar y Pryd - 70 (18*)

* Y ffigwr rhwng cromfachau yw nifer yr aelodau sy'n aelodau CAP yn unig. Mae'r lleill naill ai'n aelodau Cyflawn (42) ynteu'n aelodau Sylfaenol (10) hefyd.

Mae'n galonogol fod cefnogaeth yr aelodau i'r Gymdeithas yn gadarn iawn, arwydd clir fod y rhan fwyaf o gyfieithwyr proffesiynol yn gweld gwerth bod yn aelod o gymdeithas broffesiynol.

Dim ond drwy lwyddo yn Arholiadau Aelodaeth Testun neu ym Mhrawf CAP y Gymdeithas y gellir dod yn aelod. Mae dwy lefel o aelodaeth i gyfieithwyr testun – Cyflawn a Sylfaenol – ac un lefel o aelodaeth i gyfieithwyr ar y pryd.

Mae blwyddyn aelodaeth y Gymdeithas yn dechrau ar 1 Ebrill. Rydym yn gweithredu trefn gadarn a theg yn ystod Ebrill a Mai bob blwyddyn ar gyfer atgoffa ac ail-atgoffa aelodau i dalu'u tâl aelodaeth. O ganlyniad, dim ond enwau aelodau sydd wedi talu'u tâl aelodaeth am y flwyddyn sydd ar wefan y Gymdeithas.

Ymddygiad proffesiynol

Wrth dalu eu tâl aelodaeth mae holl aelodau'r Gymdeithas yn gwybod fod disgwyl iddynt ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol. Ynghlwm wrth y Cod, mae gan y Gymdeithas drefn gwyno. Braff dweud na chafwyd yr un gŵyn yn erbyn aelod o'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynnig Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad, gwasanaeth y codir ffi amdano.

Cydnabod Meysydd Arbenigedd Proffesiynol ein haelodau

Yn ystod 2016-17 penderfynwyd sefydlu a datblygu trefn ar gyfer cydnabod Meysydd Arbenigedd Proffesiynol a chyfyngu hynny i aelodau Cyflawn ac aelodau CAP yn unig. Wrth gydnabod unrhyw faes arbenigedd penderfynwyd y dylid, mewn egwyddor, ystyried dulliau a fyddai'n rhai addas a phriodol i'r maes dan sylw.

Aed ati i sefydlu tri Maes Arbenigedd Proffesiynol yn ystod y flwyddyn: CAP yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd (a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â swyddogion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi); Cyfieithu Deddfwriaethol (a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â swyddogion Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru); a Chyfieithu Cyfathrebu.



Caiff yr aelodau hynny a lwyddodd yn y prawf CAP yn yr Undeb Ewropeaidd yn 2009 hefyd eu cydnabod dan y drefn hon.

Cydnabyddiaeth i eraill

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod cwmnïau cyfieithu trwy drefn y Cwmni Cydnabyddedig. Cynigir cydnabyddiaeth i sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector fel rhai Cydnabyddedig neu Gyswllt, yn dibynnu ar fodloni meini prawf.

Mae cydnabyddiaeth fel Myfyriwr Cyswllt ar gael i fyfyrwyr sydd â'u bryd ar yrfa fel cyfieithwyr, ac yn fodd o annog a chefnogi myfyrwyr yn yr uchelgais hon. Nid yw bod yn Fyfyriwr Cyswllt yn golygu bod yn aelod o'r Gymdeithas.

Y drefn arholi

Arholiadau Aelodaeth Testun

Cynhaliwyd yr **Arholiadau Aelodaeth Testun** ar y lefelau Cyflawn a Sylfaenol ym mis Ebrill 2016 ac ym mis Hydref 2016. Fe'u cynhaliwyd yng Ngholeg Ceredigion, Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, a Choleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff yn y sefydliadau hyn am eu cymorth a'u cydweithrediad parod. Hoffem hefyd ddiolch i'r arholwyr, y marcwyr a'r goruchwylwyr.

Dyma ystadegau'r arholiadau:

Cyfanswm yr holl ymgeiswyr *	Ebrill 2016		Hydref 2016	
	Ymgeiswyr	Llwyddo	Ymgeiswyr	Ymgeiswyr
	33		44	
Cyflawn *	14	2	8	4
Papur 1 - i'r Gymraeg	14	1	7	3
Papur 2 - i'r Saesneg	2	1	2	1
Sylfaenol *	19	7	36	12
Papur 1 - i'r Gymraeg	17	4	33	7
Papur 2 - i'r Saesneg	6	4	14	6

* Safodd rhai ymgeiswyr y ddau bapur

Roedd y ffaith fod cynifer yn sefyll yr arholiadau Cyflawn yn dangos awydd cynyddol ymysg cyfieithwyr i gyrraedd safon wirioneddol broffesiynol yn eu gwaith.



Er mai pedwar ymgeisydd yn unig a fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau Cyflawn i'r Gymraeg, roedd mwyafrif y lleill yn bendant o fewn cyrraedd i lwyddo. Da yw gweld bod mwyafrif yr ymgeiswyr ar y lefel hon, felly, yn amlwg yn dod i ddeall beth yw safon cyfieithu proffesiynol.

Er bod mwyafrif yr ymgeiswyr yn agos iawn at lwyddo ar y lefel hon mae'n rhaid gallu cynnal y safon ar hyd y ddau ddarn. Yn anffodus, cafwyd rhai gwallau esgeulus oedd yn golygu na ellid barnu'n gwbl hyderus fod yr ymgeiswyr hynny'n barod i fod yn gyfieithwyr annibynnol. Er mai cymharol ychydig oedd y gwallau hyn yng ngwaith bron pob un o'r ymgeiswyr, ar y lefel hon mae'n rhaid prawf ddarllen yn fanwl a thrylwyr er mwyn sicrhau nad oes gwallau o'r math hwn yn y gwaith a gyflwynir.

Mae'n drueni gorfod nodi, unwaith yn rhagor, y gallasai'r canlyniad fod yn wahanol i ambell un petai'r gwaith wedi cael ei ddarllen yn fwy trylwyr cyn ei gyflwyno. Yn wir, roedd nifer o ymgeiswyr wedi llwyddo yn y darn cyntaf, ond heb gael cystal hwyl ar yr ail. Gwelir hyn i ryw raddau yn aml yn yr arholiadau, sy'n creu'r argraff nad yw'r ymgeiswyr wedi llwyddo i reoli eu hamser yn effeithiol. Yn sicr, mater o arfer da i bob ymgeisydd fyddai rhannu'r amser yn gyfartal rhwng y ddau ddarn, ac yna rannu'r awr honno fesul darn yn gyfartal rhwng y cyfieithu a'r darllen, er mwyn sicrhau'r copi glanaf posibl.

Roedd y gwaith yn gyffredinol o safon uchel, y mynegiant yn raenus, a'r cyfieithiadau, ar y cyfan, yn darllen fel darnau Cymraeg gwreiddiol. Ond hefyd, gwelwyd cryn nifer o wallau ystyr a chywirdeb, anawsterau cystrawennol a mynegiant carbwl.

Wrth droi at y cyfieithu i'r Saesneg, er mai nifer fechan sy'n sefyll yr arholiad hwn yn arferol, braf yw nodi fod gwaith yr ymgeiswyr ar y cyfan yn cynnwys cyffyrddiadau da a chyfieithu safonol. Unwaith eto, serch hynny, gwelwyd enghreifftiau o gyfieithu oedd yn llithro o dan y safon.

Yr anogaeth i bob un sydd am sefyll yr arholiadau Cyflawn, p'un ai i'r Gymraeg neu i'r Saesneg, fyddai parhau i fireinio'u crefft a cheisio gwelliant parhaus yn eu gwaith, er mwyn sicrhau safon broffesiynol ym mhob cyfieithiad a luniant.

Er bod nifer yr ymgeiswyr yn yr **arholiadau Sylfaenol** ym mis Ebrill 2016 yn is na'r disgwyl, roedd y niferoedd ym mis Hydref 2016 yn debycach i'r hyn a ddisgwyliid.

Er mai rhyw chwarter yr ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau hyn, fe lwyddodd sawl un arall i gyrraedd y safon mewn un darn, ac roedd rhai pethau addawol i'w gweld ym mwyafrif y sgriptiau. Prin iawn erbyn hyn yw'r ymgeiswyr hynny a gaiff eu trechu'n llwyr gan y darnau yn yr arholiadau ar y lefel hon, arwydd bod ymgeiswyr yn fwy ymwybodol o'r safon a ddisgwyliid.



Fel yn achos yr arholiadau ar y lefel Gyflawn, gwelwyd ambell ymgeisydd digon addawol yn methu ar yr ail ddarn, i bob golwg oherwydd ei fod heb lwyddo i reoli ei amser yn ddigonol.

Siom unwaith yn rhagor oedd gweld ambell ymgeisydd digon addawol yn methu â chyrraedd y safon oherwydd gwallau ystyr neu gywirdeb elfennol y dylasai sylwi arnynt wrth ddarllen y gwaith cyn ei gyflwyno, ac na fyddid yn disgwyl eu gweld gan neb oedd yn honni bod yn gyfieithydd. Dylai unrhyw un sydd am fod yn gyfieithydd fod yn effro i'r math o wallau esgeulus a welwyd, yn enwedig methu â threiglo, a hyfforddi'i hun i sylwi arnynt wrth brawf ddarllen ei waith. Cofier hefyd, y caiff ymgeiswyr ddefnyddio gwirydd sillafu yn yr arholiadau.

Ymysg y gwallau amlycaf a welwyd unwaith yn rhagor yn yr arholiadau hyn oedd: dilyn trefn y Saesneg yn slafaid a'r testun, felly, yn drwsogl neu hyd yn oed yn gamarweiniol; cyfieithiadau a oedd wedi pellhau'n sylweddol o'r hyn oedd yn y gwreiddiol; ymgeiswyr heb lwyddo i ymgyfarwyddo'n ddigonol â phatrymau'r Gymraeg; diffyg dealltwriaeth o ramadeg y Gymraeg; a phatrymau cystrawennol gwallus, megis ffurfiau berfol anaddas, methiant wrth lunio cymalau, ac ati.

Yn yr arholiadau i'r Saesneg, roedd y safon yn amrywio gryn dipyn. Er na chafwyd yr un ymgais anobeithiol, teimlid o bosib nad oedd ambell un wedi cael digon o brofiad o gyfieithu i'r Saesneg, gan fod sawl elfen o'u gwaith wedi llithro o dan y safon ddisgwyliedig. Wedi dweud hynny, cafwyd enghreifftiau o gyfieithu deallus gan fwyafrif yr ymgeiswyr.

Gwaetha'r modd, ochr yn ochr ag enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, cafwyd hefyd wallau esgeulus. Roedd dewis ambell un o eirfa yn wan oherwydd eu bod heb ymdeimlo'n ddigonol â chyweiriau'r Saesneg, ac roedd diffyg ymwybyddiaeth o batrymau naturiol y Saesneg yn amlwg.

Serch mai'r lleiafrif sy'n llwyddo yn yr arholiadau ar y lefel Sylfaenol i'r Gymraeg ac i'r Saesneg, roedd addewid amlwg i'w weld gan nifer dda o'r ymgeiswyr, ac roedd cnewyllyn sylweddol ohonynt yn bendant o fewn cyrraedd i'r safon ddisgwyliedig. Hoffem annog y rhain i ddyfalbarhau ac i fanteisio ar bob cyfle i gryfhau eu sgiliau ymhellach, ac yn enwedig i fanteisio ar bob cyfle i ddarllen Cymraeg a Saesneg graenus ac ymgyfarwyddo ymhellach â phatrymau'r ddwy iaith.

Mae'n braf nodi dyfarnu **Gwobr Goffa Wil Petherbridge** yn 2016 i Angharad Eleri Edwards, cyfieithydd gyda Gwasanaethau Iaith Calan pan lwyddodd yn yr arholiad. Cyflwynir Gwobr Goffa Wil Petherbridge - er cof am gyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru - i'r ymgeisydd mwyaf addawol am Aelodaeth Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg, os bernir bod teilyngdod.



Y Prawf CAP

Cynhaliwyd un **Prawf CAP** yn ystod y flwyddyn ym mis Tachwedd 2016 yn stiwdio sain broffesiynol Stiwdio Aran, Groeslon, ger Caernarfon. Nid oedd yr un ymgeisydd yn ne Cymru. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff yn y stiwdio am eu cymorth a'u cydweithrediad parod. Hoffem hefyd ddiolch i'r arholwyr, yr aseswyr a'r goruchwyliwr.

Yn anffodus, y tro hwn dyfarnwyd bod y ddau ymgeisydd a safodd y Prawf CAP yn methu. Teg yw dweud bod y safon yn is na'r hyn a welwyd mewn profion blaenorol. Prif wendid yr ymgeiswyr yn y Prawf CAP hwn oedd y gystrawen a'r gallu i greu brawddegau a oedd yn gwneud synnwyr yn y Saesneg. Fel y nodwyd yn y gorffennol, byddai'n fuddiol i gyfieithwyr ar y pryd wrando ar raglenni materion cyfoes Saesneg er mwyn gwella'r cystrawennu.

Wedi dweud hynny, roedd gan y ddau ymgeisydd leisiau hyderus a dymunol, gan wneud ymgais dda i liwio a gwahaniaethu rhwng siaradwyr.

Hybu datblygiad proffesiynol

Unwaith yn rhagor, trefnwyd rhaglen o weithgareddau i hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr a darpar gyfieithwyr, a oedd yn cynnwys gweithdai, yr e-weithdy cyfieithu a'r Ymarfer CAP. Fel yn y gorffennol, cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r agwedd hon ar waith y Gymdeithas, arwydd sicr fod galw am weithdai a bod angen rhagor o weithgareddau hyfforddi. Mae darpariaeth y Gymdeithas yn y maes hwn yn llenwi bwlch pwysig serch nad yw'r ddarpariaeth hon mor helaeth bellach ag yr arferai fod.

Fel yn 2015-16, trefnwyd llai o weithdai nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Trefnwyd 2 **weithdy wyneb yn wyneb** yn ystod y flwyddyn. Gan ddilyn y patrwm a fabwysiadwyd ers sawl blwyddyn, fe'u cynhaliwyd mewn mwy nag un lleoliad er mwyn eu gwneud mor hygyrch â phosib i gyfieithwyr ym mhob rhan o Gymru. Y gweithdai a gynhaliwyd oedd:

- 'Wyneb yn Wyneb', gweithdy i Aelodau CAP y Gymdeithas yn unig. Y tiwtor oedd Zora Jackman. Daeth 4 i'r gweithdy yn Galeri, Caernarfon (15 Tachwedd 2016), ond bu'n rhaid gohirio'r gweithdy oedd i'w gynnal yn yr Hen Lyfrgell, Caerdydd (9 Tachwedd 2016), yn bennaf oherwydd bod cyfieithwyr ar y pryd yn brysur yn y cyfnod hwn a thipyn o alw am eu gwasanaeth.

- '2 ... 5 ... 250', gweithdy o fath newydd dros gyfnod o 6 wythnos, er mwyn paratoi pobol at yr arholiad Sylfaenol, cyfieithu i'r Gymraeg. Roedd yn gyfuniad o aseiniadau yr oedd yr hyfforddeion yn eu gwneud yn eu hamser eu hunain, sef cyfieithu 2 ddarn o hyd a safon debyg i'r hyn y gellir eu disgwyl yn yr arholiad Sylfaenol i'r Gymraeg; a mynd i ddau weithdy, dwy awr o hyd, i drafod y cyfieithiadau hynny. Cynhaliwyd y rhain yn yr Hen Lyfrgell, Caerdydd ac yn Galeri, Caernarfon. Y tiwtoriaid oedd Gareth Wood yn y de a Menna Wyn yn y gogledd. Cymerodd 16 ran yn y gweithdy, 9 yn y de a 7 yn y gogledd.



Parhaodd poblogrwydd yr **e-weithdy cyfieithu** fel dull effeithiol o ddysgu ac o gynnig hyfforddiant i bobl yn eu hamser eu hunain, ond o fewn amserlen a strwythur. Cynigir yr e-weithdy cyfieithu ar lefelau Cyflawn a Sylfaenol ar wahân. Yn yr e-weithdy cyfieithu bydd yr hyfforddai yn cyfieithu 2 ddarn o'r un hyd a safon â darnau'r arholiad perthnasol, ac yn cael sylwadau ar eu cyfieithiadau gan diwtoriaid sy'n gyfieithwyr profiadol ac yn aelodau o Gofrestr Marcwyr arholiadau'r Gymdeithas. Cynhaliwyd 4 e-weithdy cyfieithu yn ystod y flwyddyn, 2 ar y lefel Gyflawn a 2 ar y lefel Sylfaenol. Cymerodd 12 o unigolion ran yn yr e-weithdai cyfieithu ar y lefel Gyflawn (14 i'r Gymraeg ac 1 i'r Saesneg); a 38 o unigolion ar y lefel Sylfaenol (36 i'r Gymraeg a 6 i'r Saesneg).

Cynhaliwyd yr **Ymarfer CAP** ym mis Hydref 2016. Cymerodd 3 ran ynddo.

Yn ystod y flwyddyn trefnwyd **rhaglen o hyfforddiant wedi'i deilwra** i gyfieithwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Roedd y rhai a fanteisiodd ar y cyfleoedd hyn yn gweithio yn y sector cyhoeddus, mewn cwmnïau cyfieithu preifat neu ar eu liwt eu hunain. Mae hyn yn arwydd clir fod cyfieithwyr ar draws y proffesiwn/diwydiant yn ei gyfanrwydd yn gweld gwerth mewn buddsoddi yn eu datblygiad proffesiynol. Roedd sawl un a oedd yn ystyried gyrfa fel cyfieithydd hefyd ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr hyfforddiant.

Parhawyd i annog aelodau i roi sylw i'w **datblygu proffesiynol parhaus (DPP)**, ac i bwysleisio pwysigrwydd rhoi sylw dyledus i hyn. Cyhoeddwyd papur pellach yn amlinellu manteision DPP, papur i'w ddarllen law yn llaw â 'Balchder Crefft' a gyhoeddwyd yn 2014. Roedd y papur hwn yn cynnig canllaw hwylus a fyddai'n helpu'r aelodau i lunio'u cynllun DPP personol, ac a oedd yn cynnig arweiniad iddynt wrth iddynt ystyried pa weithgaredd DPP, a faint ohono, fyddai fwyaf addas a pherthnasol iddynt ei wneud. Ers lansio'r wefan newydd, gall pob aelod bellach gofnodi ei weithgarwch DPP yn ei Gofnod Aelodaeth ar y wefan, cofnod y gall yr aelod ei hun a staff y Gymdeithas yn unig ei weld.

Gwefan y Gymdeithas

Mae'r wefan yn ganolog i weithgarwch marchnata a chyfathrebu'r Gymdeithas wrth hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas fel y corff proffesiynol i gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg. Dyma'r unig le yn y byd i chwilio am wybodaeth am gyfieithwyr Cymraeg a'r maes cyfieithu yng Nghymru. Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth i'r gwahanol garfanau y mae'r Gymdeithas am ymgysylltu â hwy, sef ein haelodau, darpar aelodau, cyfieithwyr eraill, sefydliadau a chyrrff, comisiynwyr cyfieithu, a chysylltiadau allweddol eraill.

Mae'n cynnwys gwybodaeth ac adnoddau y mae eu hangen ar gyfieithwyr, a deunyddiau dysgu ac arweiniad ar gyfer unigolion sydd â'u bryd ar fod yn aelodau o'r Gymdeithas. I'r rhai sy'n chwilio am gyfieithydd, mae gwasanaeth dod o hyd i gyfieithydd hwylus a hawdd ei ddefnyddio, gwasanaeth sy'n rhad ac am ddim.



Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol - sefydliadau Addysg Uwch

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal ei pherthynas agos â'r **Coleg Cymraeg Cenedlaethol**. Yn benodol, parhaodd y Gymdeithas i gefnogi cynlluniau'r Coleg i ddatblygu cynllun academaidd cenedlaethol ym maes astudiaethau cyfieithu a fyddai'n ymateb i anghenion y proffesiwn/diwydiant cyfieithu.

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o'r Consortiwm Astudiaethau Cyfieithu. Bwriad y Consortiwm yw cadw trosolwg strategol ar y ddarpariaeth academaidd, cynnig arweiniad a chynghor er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth academaidd yn adlewyrchu anghenion hyfforddi'r proffesiwn, a sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r safon a'r rhychwant sgiliau sydd yn ddisgwyliedig gan y proffesiwn cyfieithu. Ystyria'r Gymdeithas fod hwn yn gynllun pwysig iawn i ddatblygiad y diwydiant/proffesiwn yng Nghymru. Mae datblygu perthynas gref ac ymarferol rhwng y cynllun a'r Gymdeithas ar bob lefel yn flaenoriaeth amlwg.

Parhaodd y Gymdeithas i roi ei chefnogaeth ymarferol i'r Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd ym **Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**, cymhwyster y bu'n bartner allweddol yn ei sefydlu. Hwn yw'r unig gymhwyster a gaiff ei gynnig mewn cyfieithu ar y pryd Cymraeg/Saesneg, ac mae'n gyfle i ennill cymhwyster academaidd sy'n bodloni anghenion y proffesiwn/diwydiant cyfieithu.

Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol - cyrff a sefydliadau

Yn y **byd cyfieithu**, parhaodd y Gymdeithas i ehangu ei rhwydweithiau a'i chysylltiadau trwy gynnal a datblygu ei pherthynas â chymdeithasau a chyrff cyfieithu, yn eu plith yr Institute of Translators and Interpreters, grŵp ITI Cymru/Wales, Chartered Institute of Linguists, National Register of Public Service Interpreters a'r Comisiwn Ewropeaidd. Ymaelododd â Professional Interpreters for Justice, grŵp ymbarél ac ymgyrchu o blaid buddiannau cyfieithwyr ar y pryd a ffurfiwyd yn 2012 yn sgil sefydlu cytundeb fframwaith gwasanaethau iaith y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Gymdeithas yn aelod o FIT (Fédération Internationale des Traducteurs / International Federation of Translators), sef y gymdeithas ryngwladol sy'n cynrychioli buddiannau cymdeithasau cyfieithu proffesiynol.

Wrth hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg, mae'r Gymdeithas yn aelod o Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg, sef casgliad o fudiadau hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg y mae Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ei gydlynu a'i weinyddu.

Am y tro cyntaf ers 2013 cynhaliwyd yr **Her Gyfieithu**. Wrth i'r gystadleuaeth gael ei hadfer, y Gymdeithas unwaith yn rhagor a noddodd y Ffon Farddol a roddir i enillydd y gystadleuaeth i'r Gymraeg. A phleser o'r mwyaf oedd gweld mai un o'n haelodau, Glenys Roberts, yn ennill Her Gyfieithu 2016 i'r Gymraeg. Cyflwynwyd y Ffon Farddol iddi mewn seremoni yn yr Eisteddfod Genedlaethol fel rhan o weithgareddau 'dydd Iau cyfieithu'.



Am yr eildro yn 2016 cynhaliwyd **cystadleuaeth cyfieithu i'r oedran 19-25 yn Eisteddfod yr Urdd**, cystadleuaeth oedd yn ffrwyth cydweithio rhwng y Gymdeithas a'r Urdd. Mae'n braf nodi fod yr enillydd, Ffion Pritchard, yn aelod o'r Gymdeithas. Ei gwobr oedd treulio diwrnod yng Ngwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad Cenedlaethol, ac rydym yn gwerthfawrogi eu cydweithrediad parod hwy.

Yn ystod y cyfnod hwn cyflwynodd y Gymdeithas dystiolaeth ysgrifenedig i ddau ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru i ddyfodol Llywodraeth Leol. Roedd y dystiolaeth yn canolbwyntio ar swyddogaeth bwysig cyfieithu wrth ddatblygu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth Llywodraeth Leol ac wrth weithredu Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o: Dathlu'r Gymraeg, Dyfodol i'r Iaith, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a Mantell Gwynedd.

Y sefyllfa ariannol

Cafwyd grant o £50,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at ariannu rhai o weithgareddau'r Gymdeithas y cytunwyd arnynt mewn set o dargedau.

Y brif ffynhonnell arall o incwm i'r Gymdeithas oedd y taliadau aelodaeth, a chafwyd £52,066.

Roedd yr incwm a gafwyd yn fodd i'r Gymdeithas barhau i gyflogi 2 aelod o staff amser-llawn, yn ogystal â chyflawni'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Dengys y cyfrifon fod gan y Gymdeithas gronfa o £137,575 ar ddiwedd y flwyddyn.

Paratowyd yr Adroddiad Ariannol (heb archwiliad) gan Owain Bebb a'i Gwmni, Caernarfon. Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â FRS 102, Rhan 1A.

Rheoli'r Gymdeithas

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Fe'i cofrestrwyd yng Nghymru, rhif 4741023.

Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Ar 31 Mawrth 2017, aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr oedd: David Bullock, Mari Lisa Davies, Bethan Mair Evans, Fiona Gannon, Hywel Gwynn Hughes, Catherine Jones, Mary Jones, Hywel Pennar, Lisa Pugh, Claire Richards, Huw Tegid Roberts.

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 26 Ebrill 2016, 11 Gorffennaf 2016 a 30 Tachwedd 2016.

Fiona Gannon yw Prif Arholwr y Gymdeithas ac mae ganddi gyfrifoldeb am yr Arholiadau Aelodaeth (Testun) a'r Prawf CAP.



Gair i gloi gan y Prif Weithredwr, Geraint Wyn Parry

Unwaith eto, hoffwn ddatgan fy niolch a'm gwerthfawrogiad i Nia Wyn Jones am ei gwaith caled a'i hymroddiad i'r Gymdeithas.

Wedi ansicrwydd 2015-16 daeth dipyn o sefydlogrwydd yn ôl i waith y swyddfa wrth i Lywodraeth Cymru ddyfarnu grant i'r Gymdeithas. Roedd hynny'n galonddid i'r ddau ohonom. Fel Gymdeithas, rydym yn ddiolchgar iawn i'r Llywodraeth am y gefnogaeth hon.

Hoffwn gydnabod hefyd y gefnogaeth gyson a gefais gan Claire Richards, Cadeirydd y Gymdeithas. Ga'i ddiolch iddi hi ac i holl aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr am eu doethineb wrth gyflawni eu gwaith, ac am eu ffyddlondeb i gyfarfodydd y Bwrdd.

Mae Fiona Gannon, ein Prif Arholwr, yn un sy'n chwarae rhan allweddol yng ngwaith y Gymdeithas. Hoffwn ddiolch iddi hithau am ei harweiniad cadarn wrth lywio gweithgarwch pwysica'r Gymdeithas.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r aelodau hynny sy'n gwasanaethu'r Gymdeithas mewn ffyrdd eraill, fel arholwyr a marcwyr arholiadau, fel tiwtoriaid gweithdai, fel goruchwylwyr yr arholiadau, a'r rhai sydd mor barod i gynorthwyo pan af ar ei galw ynghylch rhyw dasg neu'i gilydd. Mae'r cydweithio braf rhwng y staff a'r aelodau trwy'r ymwneud hwn yn un o gryfderau mawr y Gymdeithas, a hir y parhaed hynny.

